# Portffolio iaith

Lowri John (1200504)

# Cynnwys


**Rhan 1: Tystiolaeth Ffilm**

Cynllun gwers

Hunan adfyfyriad

Adnodd ychwanegol

**Rhan 2: Datblygu sgiliau llythrennedd y dysgwyr**

Trosolwg

Cynllun Gwers 1, 2 a 3

Gwahaniaethu (x3 esiampl o ddyddiadur)

Adborth

Grid GED

Enghraifft o dasg ffocws (CA2)

Enghraifft o gywiro gwaith

Gwahaniaethu (x2 esiampl o dasg annibynnol a'r adnoddau dysgu)

Enghreifftiau o waith disgyblion yn y cyfnod sylfaen a'r adnoddau dysgu.

**Rhan 3: Tasgau gloywi iaith**

Enghraifft 1, 2 a 3

# Cynllun Gwers

<table>
<tr><td>Darpar Athro</td><td>Lowri John</td><td>Dosbarth:</td><td>Blwyddyn 3</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc</td><td>Iaith, llythrennedd a chyfathrebu</td><td>Dyddiad:</td><td>25/02/20</td></tr>
<tr><td>Ffocws Gwers:</td><td colspan="3">Cynllunio a chreu cerdd Haicw</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm</td><td colspan="3"><u>Llafar</u><br>• Esbonio gwybodaeth a syniadau gan ddefnyddio geirfa briodol<br><u>Darllen</u><br>• Adnabod dibenion gwahanol destunau, e.e. rhoi gwybodaeth, cyfarwyddo, esbonio<br><u>Ysgrifennu</u><br>• Defnyddio strwythur penodol wrth ysgrifennu<br>• Defnyddio iaith sy’n briodol ar gyfer ysgrifennu, gan gynnwys Cymraeg safonol</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau ystyrlon â:<br>Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd</td><td colspan="3"><u>Cymhwysedd digidol</u><br>➢ Datblygu strategaethau ar gyfer dod o hyd i wybodaeth gan ddefnyddio gwahanol allweddeiriau a thechnegau</td></tr>
</table>

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| **Nod y wers:** Ar ddiwedd y wers bydd disgyblion yn medru cynllunio a chreu cerdd Haicw<br><br>**Amcanion Dysgu:**<br>1. Creu rhestr o eiriau addas i ddisgrifio aderyn<br>2. Ysgrifennu cerdd Haicw |

| Meini Prawf Llwyddiant<br>(wedi eu cysylltu’n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu’r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i’w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| 1. Creu rhestr o eiriau i ddisgrifio aderyn gan gynnwys, amryw o ansoddeiriau a berfau addas.<br><br>2. Ysgrifennu cerdd Haicw gan ddefnyddio’r geiriau o’r rhestr. Rhaid ysgrifennu tair llinell yn dilyn patrwm sillaf Haicw; 5,7,5.<br><br>3. Darllen dros y gwaith yn gyson ac addasu'r gerdd yn ôl yr angen. | Bydd angen i ddisgyblion ysgrifennu rhestr o eiriau addas ac ysgrifennu cerdd Haicw ar ddarn o bapur A4. |

| **Amser** | **Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol**<br>(Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | **Tasgau Disgyblion**<br>(Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | **Adnoddau**<br>(Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol** | Byddaf yn cyflwyno nod y wers.<br><br>Byddaf yn dosbarthu enghraifft o gerdd Haicw gan ofyn iddynt drafod a sylwi ar y nodweddion. (Byddaf yn dosbarthu y daflen wybodaeth).<br><br>Cwestiynau allweddol<br>➢ Beth yw cerdd Haicw?<br>➢ Oes rheolau pendant?<br>➢ Sawl llinell sydd yn y gerdd?<br>➢ Sawl sill sydd ym mhob llinell?<br><br>Byddaf yn modelu esiampl ar y bwrdd gwyn drwy ysgrifennu cerdd Haicw ar y cyd. Yn gyntaf, byddwn yn creu map meddwl. Disgwylir iddynt feddwl am eiriau i ddisgrifio gwylan. Yn ail, gofynnir iddynt i ddefnyddio'r eirfa i greu cerdd Haicw gan gofio rheolau'r gerdd.<br><br>Gwirio bod pawb yn deall cyn iddynt symud ymlaen i ysgrifennu cerdd haicw yn annibynnol. | Ymateb i gwestiynau ar lafar gan ddefnyddio iaith briodol. Mae croeso i ddisgyblion ofyn cwestiynau, os nad ydyn nhw'n deall gofynion y dasg ar unrhyw adeg.<br><br>Disgwylir i ddisgyblion i wrando ar gyfoedion, cymryd tro i rannu syniadau a chydweithio ag eraill wrth greu'r gerdd Haicw.<br><br>Anogir disgyblion i fod yn fentrus drwy ddefnyddio amryw o eirfa i ddisgrifio'r aderyn. Gellir defnyddio lluniau fel sbardun i'w helpu.<br><br>Bydd cyfle i'r myfyrwyr i hunan asesu eu cerdd cyn symud ymlaen i ysgrifennu cerdd haicw yn annibynnol. | ➢ Taflen wybodaeth ac enghreifftiau o gerddi Haicw<br>➢ Bwrdd gwyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | <u>Ysgrifennu cerdd Haicw yn annibynnol</u><br>Anogir disgyblion i weithio'n annibynnol ar y dasg. Byddaf yn ymweld â phob disgybl yn unigol ac yn darparu adborth a chymorth pan fod angen.<br>Bydd disgyblion yn cael eu canmol am eu hymdrechion a'u cyflawniad trwy gydol y wers.<br>Cyn diwedd y wers, bydd plant yn cael cyfle i ddarllen eu cerddi ar goedd i'w cyfoedion. | <u>Ysgrifennu cerdd Haicw yn annibynnol</u><br>Disgwylir i ddisgyblion creu rhestr o eirfa addas i ddisgrifio aderyn o'u dewis, cyn ysgrifennu'r gerdd Haicw.<br><br>Gellir defnyddio geiriadur neu ddyfais electronig i ddod o hyd i eirfa newydd a'u helpu i sillafu geiriau. | <u>Adnoddau - tasg 1</u><br><br>➢ Taflen wybodaeth ac enghreifftiau o gerddi Haicw<br>➢ Bwrdd gwyn<br><br><u>Adnoddau ychwanegol-tasg 2</u><br>➢ Gliniaduron<br>➢ Geiriaduron<br>➢ Mat geirfa<br>➢ Papur llinellog (A4) |
| **Sesiwn Gloi** | Byddaf yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth y dysgwyr trwy ofyn iddynt i nodi rheolau cerdd Haicw.<br><br><u>Cwestiynau allweddol</u><br>Sawl llinell sydd yn y gerdd?<br>Sawl sill sydd ym mhob llinell?<br>Beth ydych chi wedi dysgu heddiw?<br>Ydych chi wedi mwynhau ysgrifennu cerdd Haicw? Pam? | Bydd angen i'r disgyblion i adfyfyrio ac ymateb i gwestiynau ar lafar gan ddefnyddio iaith briodol. | |

# Hunan Adfyfyriad

| Gwerthuso'r hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu | |
|---|---|
| Tystiolaeth o ddysgu | **Amcanion dysgu:**<br>1. Creu rhestr o eiriau addas i ddisgrifio aderyn<br>2. Ysgrifennu cerdd Haicw<br><br>• Roedd y myfyrwyr wedi dysgu rheolau'r gerdd haicw gan eu bod yn ymwybodol bod angen iddynt ysgrifennu tair llinell a dilyn patrwm sillaf benodol.<br><br>• Cymerodd pob myfyrwyr eu tro i rannu ansoddeiriau i ddisgrifio ymddangosiad a chymeriad gwylan (pig oren, plu gwyn, mae'n byw ar lan y môr, mae'n hoffi bwyta sglodion).<br><br>• Roedd y myfyrwyr i gyd yn cyfrannu i'r drafodaeth wrth i ni greu map meddwl ar y bwrdd gwyn. Er hyn, gallai'r myfyrwyr gwella eu geirfa trwy feddwl am eiriau mwy disgrifiadol a chreadigol.<br><br>• Serch hyn, defnyddiodd y myfyrwyr rai o'r geiriau i'w helpu i greu'r gerdd Haicw. Cyn i'r myfyrwyr ateb, sylwais ar rhai ohonynt yn gwirio gyda chyfoedion.<br><br>• Wrth inni ysgrifennu brawddegau'r gerdd, sylweddolais fod y myfyrwyr wedi llwyddo i odli'r geiriau. Gallaf ddatblygu eu dealltwriaeth am odli ymhellach yn y wers nesaf.<br><br>• Roedd cyd-destun y gerdd o safon dda gan fod y myfyrwyr wedi llwyddo i gysylltu'r geiriau perthnasol i ddisgrifio'r wylan.<br><br>• Ar ôl i ni greu'r gerdd gyda'n gilydd, roedd yn amlwg bod y myfyrwyr yn barod i greu cerdd Haicw yn annibynnol. |
| Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd | • Gosod fwy o her trwy annog y myfyrwyr i ddefnyddio ansoddeiriau mwy disgrifiadol a chreadigol wrth ysgrifennu'r gerdd.<br>• Datblygu eu hymwybyddiaeth o eiriau sy'n odli ac ystyried eu heffaith mewn cerdd. |

| **Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd** | |
|---|---|
| Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol | **<u>Trafodaeth yng Nghymraeg</u>**<br>Roedd cynllunio a chreu'r gerdd ar y cyd gyda myfyrwyr yn ffordd dda o ennyn eu diddordeb yn eu dysgu. Siaradais yn Gymraeg trwy gydol y wers a gwrandewais ar ymatebion dysgwyr er mwyn cynnal y drafodaeth gyda'r dosbarth cyfan. Roedd y drafodaeth yn effeithiol gan fod yr holl fyfyrwyr wedi cyfrannu at y sgwrs ac o ganlyniad, datblygais eu sgiliau siarad a gwrando.<br><br>**<u>Cyflwyno deunydd mewn camau bach</u>**<br>Dangosais y broses o ysgrifennu cerdd mewn camau bach. Yn gyntaf, fe wnaethon ni greu map meddwl. Pwrpas hyn oedd datblygu geirfa'r myfyrwyr cyn iddynt ysgrifennu'r gerdd. Llwyddais i asesu gallu'r myfyrwyr i ddisgrifio, gan ganolbwyntio ar ansawdd eu hansoddeiriau. Sylweddolais fod y myfyrwyr yn gallu disgrifio ymddangosiad yr wylan gan ddefnyddio ansoddeiriau syml.<br><br>Ond, teimlaf fod angen i mi herio'r myfyrwyr ymhellach yn y wers nesaf trwy eu hannog i ddefnyddio ansoddeiriau mwy creadigol a chymhleth. Serch hyn, roeddwn yn hyderus bod y myfyrwyr wedi nodi amryw o ansoddeiriau ac felly dechreuon ni ysgrifennu'r gerdd. Defnyddion nhw'r ansoddeiriau o'r map meddwl i ffurfio brawddegau'r gerdd, sy'n profi bod cynllunio map meddwl ar y cyd yn ddull effeithiol ar gyfer datblygu eu sgiliau meddwl ac ysgrifennu.<br><br>**<u>Cwestiynu</u>**<br>Llwyddais i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth myfyrwyr cyn iddynt ysgrifennu cerdd eu hunain. Gofynnais gwestiynau caeedig i asesu eu dealltwriaeth o reolau'r gerdd. Roedd hwn yn ffordd dda o ennill adborth cyflym wrth y disgyblion a sicrhau bod y myfyrwyr yn cymryd rhan yn y wers. Er i mi ddefnyddio ambell i gwestiwn agored, gallwn i wella fy arfer addysgu yn y dyfodol drwy ofyn mwy o gwestiynau uwch sgiliau feddwl i ymestyn eu sgiliau iaith ac i feithrin fwy o greadigrwydd yn y dosbarth.<br><br>**<u>Modelu</u>**<br>Roedd creu esiampl gyda'n gilydd yn ffordd dda o ddangos cerdd effeithiol i'r myfyrwyr. Roeddwn i'n gallu modelu'r broses feddwl yn uchel gyda'r plant a phwysleisio'r meini prawf llwyddiant. Roedd hyn yn effeithiol oherwydd roedd y myfyrwyr yn gwybod sut i gynllunio ac ysgrifennu'r gerdd ar ôl i ni weithio ar y cyd i greu'r esiampl. |

| | |
|---|---|
| | **Hunan asesu**<br>Ar ôl i ni greu'r gerdd ar y cyd, gofynnais i'r disgyblion i wirio os oeddent wedi dilyn rheolau'r gerdd yn gywir. Clywais y myfyrwyr yn cyfri pob sillaf ym mhob brawddeg er mwyn gwirio patrwm sillaf y gerdd. Llwyddodd y disgyblion i hunan asesu yn llwyddiannus gan ddilyn rheolau'r gerdd, sef tair llinell a phatrwm sillaf 5,7,5.<br><br>**Adnodd ychwanegol**<br>Creais daflen wybodaeth ar gyfer y myfyrwyr er mwyn helpu nhw i ddysgu rheolau'r gerdd. Gwelais y myfyrwyr yn defnyddio hwn wrth imi ofyn iddynt sawl sill sydd ym mhob brawddeg. Ar ben hyn, roedd y daflen gwybodaeth yn cynnwys esiampl o gerddi Haicw er mwyn dangos esiamplau o rhai da. Cafodd hyn effaith bositif ar y myfyrwyr gan nad oedden nhw wedi clywed am gerdd Haicw o'r blaen ac felly roedd hyn yn ffordd dda o ddatblygu eu sgiliau darllen a'r sgil o godi gwybodaeth newydd o'r testun.<br><br>**Crynodeb o'r effaith**<br>• Datblygais iaith lafar myfyrwyr wrth iddynt ddefnyddio ansoddeiriau i ddisgrifio ymddangosiad a chymeriad gwylan.<br>• Datblygais eu gallu i ddefnyddio'r iaith ymhellach trwy ofyn iddynt ddefnyddio'r ansoddeiriau i ffurfio tair brawddeg gan ddilyn patrwm sillaf benodol.<br>• Er mwyn annog iaith greadigol, fe wnes i ganiatáu myfyrwyr i ddefnyddio rhai ansoddeiriau tu hwnt i'r map meddwl wrth greu'r gerdd.<br>• Trwy gefnogi'r myfyrwyr i gynllunio a chreu cerdd Haicw, llwyddais i ddatblygu eu defnydd o ansoddeiriau a'u gallu i ffurfio brawddegau creadigol.<br>• Siaradais yn Gymraeg trwy gydol y wers. Gofynnais gwestiynau perthnasol a gwrandewais ar ymatebion dysgwyr er mwyn cynnal trafodaeth gyda'r dosbarth cyfan. O ganlyniad, datblygwyd eu sgiliau darllen, ysgrifennu a llafar. |

| | |
|---|---|
| Meysydd ar gyfer fy Natblygiad<br><br>Targedau Personol ar gyfer Cynnydd | Rwy'n bwriadu datblygu fy Nghymraeg ymhellach trwy sicrhau fy mod yn datblygu geirfa newydd sy'n berthnasol i'r byd addysg. Bydd hyn yn cynnwys terminoleg ffurfiol a ddefnyddir yn ddogfennau gan Lywodraeth Cymru a pholisïau'r ysgol. Rwyf hefyd eisiau datblygu fy arfer fel model rôl Cymraeg i blant, felly bwriadaf ymarfer rheolau'r iaith ymhellach. E.e. rhedeg yr arddodiaid yn gywir a defnyddio treigladau yn gywir. Yn ogystal â dysgu iaith yn y dosbarth, hoffwn ddatblygu sgiliau llythrennedd plant trwy redeg clwb allgyrsiol yn yr ysgol. Byddai hyn yn caniatáu imi ddefnyddio'r iaith yn fwy creadigol ac i annog plant i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol ar draws yr ysgol. |

# Adnodd Ychwanegol

## Taflen wybodaeth Haicw

### Rheolau Haicw

**Mae Haicw yn cynnwys:**

- ✓ Tair llinell
- ✓ Patrwm sillaf 5-7-5

**Enghreifftiau**



Tylluan mawr frown
Allan yn hela am fwyd
Llygod neu bryfed?

Robin ydw i
Rwy'n canu yn y goedwig
Yn fy nyth bach clyd



# Datblygu sgiliau llythrennedd dysgwyr

## Cynllun gwers 1

Mae'r cynllun gwers yn dangos fy ngallu i gynllunio ac addysgu llythrennedd yn drawsgwricwlaidd. Cefnogais y grŵp ffocws i ysgrifennu dyddiadur creadigol yn Gymraeg. Roeddem wedi bod yn dysgu am nodweddion dyddiadur mewn gwersi iaith ac roeddwn i eisiau herio plant i gymhwyso'r sgiliau hyn mewn cyd-destun gwahanol. Cafodd y dasg ffocws eu gwahaniaethu tair gwaith **(gweler tudalen 31, 32, 33).** Datblygwyd sgiliau darllen, ysgrifennu a llafar yn Gymraeg ac roedd hyn yn effeithiol wrth hyrwyddo profiad dysgu cyfannol.

Llwyddodd y disgyblion i hunan asesu ac ymateb i fy adborth ysgrifenedig. Ysgrifennais mewn pen pinc i nodi cryfderau'r disgyblion a phen gwyrdd i nodi'r gwelliannau. Yn dilyn hyn, defnyddiodd disgyblion pen porffor i weithredu'r gwelliannau o fewn y wers. Dengys y dystiolaeth cynnydd o ran sgiliau llythrennedd y dysgwyr wrth iddynt lwyddo i ysgrifennu dyddiadur creadigol a gwella safon eu hiaith Gymraeg (**gweler tudalen 34).**

## Cynllun gwers 2

Mae'r cynllun gwers yn dangos fy ngallu i ddechrau a chynnal trafodaeth gyda phlant yn Gymraeg wrth i ni gwblhau tasg ar ddechrau'r wers. Arweiniwyd y drafodaeth hon gan y plant wrth inni gwblhau'r grid GED **(gweler tudalen 35).** Yna, datblygais sgiliau darllen a deall plant yn y wers trwy eu herio i'w chwblhau'n annibynnol. Gwahaniaethwyd y dasg hon a llwyddodd pob plentyn i gyflawni'r dasg **(gweler tudalen 37, 38, 39, 40).** Yn ychwanegol, datblygais eirfa plant o fewn y wers wrth iddynt gwblhau'r dasg ffocws **(gweler tudalen 36)** a chwarae cwis ar ddiwedd y wers.

## Cynllun gwers 3

Dengys y dystiolaeth fy ngallu i gynllunio a datblygu sgiliau iaith plant yn y cyfnod sylfaen wrth i mi addysgu'r plant i ysgrifennu llythyr anffurfiol. Treuliais wythnos yn paratoi plant drwy addysgu nhw ân strwythur llythyr **(gweler tudalen 42).** Yna, llwyddais i adeiladu ar ddysgu plant drwy gefnogi nhw i ysgrifennu llythyr **(gweler tudalen 41).** Creais fat geirfa a ffrâm ysgrifennu i helpu'r plant i gyflawni'r llythyr **(gweler tudalen 43 a 44).**

## Cynllun Gwers 1

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpar Athro | Lowri John | Dosbarth: | Blwyddyn 5 & 6 |
| Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc | • Addysg Grefyddol<br>• Cymraeg<br>• Celf a dylunio<br>• T.G.CH<br>• Mathemateg<br>• Addysg Gorfforol<br>• Cerddoriaeth | Dyddiad: | 31.01.20 |
| Ffocws Gwers: | Thema: Blwyddyn Newydd Tsieineaidd | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm | **Addysg Grefyddol**<br>• Ymchwilio a gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol<br><br>**Celf a dylunio**<br>• Dylunio a gwneud gwrthrychau ac arteffactau tri dimensiwn gan ddefnyddio ystod o ddefnyddiau amrywiol at amrywiaeth o ddibenion<br><br>**Addysg Gorfforol**<br>• cydnabod egwyddorion cyfansoddi a choreograffi syml er mwyn eu defnyddio i gynllunio dilyniannau ac ystod o batrymau symud<br>• gwerthuso eu perfformiadau eu hunain a pherfformiadau gan eraill, gan ddefnyddio T.G.Ch lle y bo’n briodol, a gofyn cwestiynau perthnasol er mwyn gwella a gwneud cynnydd<br><br>**Cerddoriaeth**<br>• Ymarfer a gwerthuso’u gwaith perfformio er mwyn gwella. | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â:<br>Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd | **Llythrennedd:**<br>• Wrth gynllunio gwaith ysgrifennu, gwneud dewisiadau ynglŷn â’r cynnwys, strwythur, iaith, cyflwyniad sy’n addas at y diben<br>• Canolbwyntio wrth ddarllen testunau, ar sgrin ac ar bapur, sydd yn newydd iddynt gan ddeall yr wybodaeth sydd ynddynt<br><br>**Rhifedd:**<br>• Lluosi, rhannu, tynnu ac adio<br><br>**Cymhwysedd digidol:**<br>• Creu, casglu a chyfuno ystod o destun, delwedd, sain, animeiddiad a fideo at ddibenion penodol | | |

| |
|---|
| Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)<br><br>**Safonau SAC**: Myfyrio ar ddysgu / Rheoli'r amgylchedd dysgu (awyr agored) |

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| **Tasg Ffocws**<br>Ar ddiwedd y wers bydd disgyblion yn gallu ysgrifennu dyddiadur creadigol o safbwynt plentyn yn Tsieina yn ystod yr ŵyl Tsieineaidd<br><br>**Tasg Annibynnol**<br>Ar ddiwedd y wers bydd y disgyblion yn gallu perfformio symudiadau 'Tai Chi' a chreu eu fideo eu hunain<br><br>**Heriau**<br>• Creu animeiddiad o stori priodas y llygoden fawr<br>• Creu llusern Tsieineaidd<br>• Darllen llythyron gan blant o Tsieina a chreu poster am y ffeithiau<br>• Creu symiau mathemategol gan ddefnyddio rhifau Tsieineaidd |

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu'r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| **Ysgrifennu dyddiadur creadigol**<br><br>• Cynnwys gwybodaeth am yr ŵyl<br>• Ysgrifennu dyddiad a chyfarchiad<br>• Defnyddio paragraffau<br>• Defnyddio amryw o eirfa ac atalnodi'n gywir<br>• Defnyddio berfau yn y gorffennol<br>• Disgrifio teimladau | • Darllen a deall y daflen wybodaeth am y flwyddyn newydd Tsieineaidd<br>• Ysgrifennu dyddiadur yn eu llyfrau thema gan ddilyn y meini prawf llwyddiant |
| **Perfformio symudiadau Tai Chi**<br>• Gwrando a chopïo'r symudiadau 'Tai Chi' sydd i'w weld yn y fideo<br>• Cydweithio i greu perfformiad 'Tai Chi'<br>• Defnyddio iPad i recordio'r perfformiad ac i greu fideo | Bydd angen i'r disgyblion<br>• symud yn araf i gerddoriaeth Tsieineaidd<br>• cofio trefn y symudiadau<br>• Cydweithio mewn grŵp i greu perfformiad a fideo |

| | |
|---|---|
| **Heriau**<br>Defnyddio FFfAA wrth weithio'n annibynnol sef, gofyn i ffrind ac unrhyw un arall am gymorth cyn yr athro. | Defnyddio FFfAA a gweithio'n annibynnol. Cofnodi yn eu llyfr her, cyfrif hwb, ar yr arddangosfa celf neu'r awyr agored. |

| Amser | **Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol**<br>(Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | **Tasgau Disgyblion**<br>(Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | **Adnoddau**<br>(Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol** (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) | Asesu gwybodaeth flaenorol trwy chwarae cwis am flwyddyn newydd Tsieineaidd<br><br>Nesaf, byddaf yn:<br>➢ Esbonio’r dasg ffocws<br>➢ Esbonio’r dasg annibynnol<br>➢ Esbonio’r heriau, gan ddangos esiamplau<br><br><u>Grwpiau</u><br>Grŵp glas: Tasg annibynnol<br>Grŵp oren: Heriau<br>Grŵp coch: Tasg ffocws | Disgyblion i gymryd rhan yn y cwis a gofyn cwestiynau, os nad ydynt yn deall y gweithgareddau. | Bwrdd gwyn rhyngweithiol |
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | **<u>Rôl y cynorthwyydd (Tasg annibynnol)</u>**<br><br>Bydd angen i’r cynorthwyydd:<br><br>➢ Rhannu'r meini prawf llwyddiant<br>➢ Cynnal trafodaeth am bwysigrwydd ymarfer corff<br>➢ Modelu symudiadau ‘Tai Chi’<br>➢ Cefnogi disgyblion i greu perfformiad ‘Tai Chi’<br>➢ Recordio’r perfformiad terfynol | **<u>Tasg annibynnol</u>**<br><br>Disgwylir i ddisgyblion i:<br><br>➢ Cydweithio i greu perfformiad ‘Tai Chi’ gan gyfathrebu yn y Gymraeg<br>➢ Sganio'r cod QR i wylio fideo o ddawns ‘Tai Chi’ ac ennill syniadau<br>➢ Creu perfformiad ar y cyd a chreu fideo | Taflen wybodaeth yn seiliedig ar flwyddyn newydd Tsieineaidd<br><br>Cod QR ar gyfer creu’r llusernau a gwylio fideo ‘Tai Chi.’<br><br>iPad<br><br>Gliniaduron |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Tasg ffocws</u>**<br>➢ Rhannu'r meini prawf llwyddiant<br>➢ Darllen y daflen wybodaeth am flwyddyn newydd Tsieineaidd yng nghyd a'r disgyblion<br>➢ Adolygu strwythur dyddiadur drwy greu map meddwl ar y bwrdd gwyn<br>➢ Annog disgyblion i fod yn greadigol wrth ysgrifennu'r dyddiadur. E.e. defnyddio ansoddeiriau a chymariaethau i gynnal y darllenydd.<br><br>Yn ychwanegol, byddaf yn monitro'r disgyblion sydd yn gwneud y dasg annibynnol a'r heriau gan sicrhau bod pawb ar dasg.<br><br>**<u>Myfyrio ar ddysgu</u>**<br>Cyfeirio at y 'Triongl Adfyfyrio' - Pa sgiliau ydyn nhw wedi defnyddio heddiw i ddatrys problemau/cyflawni tasgau? Byddaf yn annog disgyblion i feddwl am strategaethau a fydd yn helpu'r grŵp nesaf i gwblhau'r dasg. | **<u>Tasg ffocws</u>**<br>• Bydd angen i'r disgyblion i gyfathrebu ar lafar yng Nghymraeg wrth drafod eu syniadau<br>• Bydd angen i'r disgyblion ddarllen y daflen wybodaeth a'i ddefnyddio wrth ysgrifennu'r dyddiadur.<br>• Ar ddiwedd y dasg, bydd cyfle i hunan asesu eu dyddiaduron yn erbyn y meini prawf llwyddiant<br><br>**Tasg ymestyn:** Byddaf yn rhannu adborth am safon yr iaith yn y dyddiadur, gan nodi'r cryfderau a'r cam nesaf ar gyfer cynnydd. Bydd disgwyl i'r disgyblion ymateb i'r adborth hyn a gwella'r dyddiadur yn y wers.<br><br>**<u>Heriau</u>**<br>➢ Creu animeiddiad o stori priodas y llygoden fawr ar jit5<br>➢ Creu llusern Tsieineaidd 3D<br>➢ Darllen llythyron o blant yn Tsieina a chreu poster i gyflwyno'r ffeithiau<br>➢ Creu symiau mathemategol wrth ddefnyddio rhifau Tsieineaidd | Adnoddau celf a chrefft<br><br>Adnoddau ysgrifennu<br><br>Llyfrau/adnoddau thema a heriau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sesiwn Gloi** | Byddaf yn:<br>• dangos fideo 'Tai Chi' grŵp glas<br>• cynnal trafodaeth ynglŷn â beth fyddent yn hoffi dysgu am ein thema yn y wers nesaf<br>• Chwarae cwis i asesu gwybodaeth a dealltwriaeth y disgyblion. | Disgyblion i feddwl, paru, rhannu wrth adfyfyrio ar y wers | Cwis ar y bwrdd gwyn rhyngweithiol |

## Cynllun Gwers – Cam 1
## Gwerthuso'r Profiad Dysgu
## (cynhwyswch gyfeiriadau at SAC)

| Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu | |
|---|---|
| Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser)) | **<u>Grŵp coch</u>**<br>Disgyblion yn ymateb yn dda wrth drafod syniadau ar gyfer eu dyddiaduron. Roeddent yn ymwybodol o strwythur dyddiadur ac yn deall y testun darllen a deall yn dda. Er hyn, roedd ambell ddisgybl yn ansicr o sut i droi berfau Gymraeg yn y gorffennol wrth ysgrifennu'r dyddiadur. O ganlyniad, roedd rhaid i mi adolygu hyn yn ystod y wers.<br><br>Ar y cyfan, roedd cynnwys y dyddiaduron yn wych ac yn berthnasol i'r wŷl Tsieineaidd. E.e. roedd dystiolaeth o draddodiadau'r wŷl megis, gwisgo dillad coch, addurno'r tŷ, bwyta nwdls, a danfon amlenni coch i ffrindiau. Llwyddodd ddisgyblion i orffen y dyddiadur ac i hunan asesu a chefais gyfle i rannu adborth gyda'r disgyblion. Yn dilyn hyn, aeth y disgyblion ati i wella eu dyddiaduron, gan ddefnyddio pen porffor i weithredu'r gwelliannau.<br><br>**<u>Grŵp glas</u>**<br>Disgyblion wedi mwynhau creu symudiadau 'Tai Chi' a gwrando ar gerddoriaeth Tsieineaidd. Gweithiodd y disgyblion mewn grwpiau bach i berfformio'r symudiadau a chreu fideo. Roedd yn amlwg fod disgyblion wedi deall gofynion 'Tai Chi' o ran symud yn araf a chreu llif rhwng un symudiad i'r llall. Gwelwyd disgyblion yn symud gyda'i gilydd ar yr un pryd wrth berfformio ac roedd ganddynt sgiliau cyd-bwyso da wrth iddynt herio eu hunain i geisio symudiadau mwy cymhleth.<br><br>**<u>Grŵp oren</u>**<br>Roedd disgyblion wedi gwasgaru ar draws yr ardaloedd her. Aeth rhai allan i'r awyr agored i dynnu lluniau o rifau Tsieineaidd ac yna aethant ati i ysgrifennu'r symiau yn eu llyfrau her. Eraill wedi dechrau'r her T.G.CH a dechrau'r animeiddiad. Llwyddodd disgyblion i greu llusernau 3D arbennig yn yr ardal greadigol wrth iddynt ddilyn cyfarwyddiadau'r fideo. Ar ben hyn, sylwais fod rhai disgyblion wedi addurno'r llusern ymhellach drwy ysgrifennu eu henw mewn Tsieineaidd. |
| Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd | • Cylchdroi'r grwpiau<br>• Adolygu berfau Cymraeg<br>• Dysgu ynganiad iaith Tsieineaidd ar lafar (gan fod disgyblion yn dangos diddordeb yn yr iaith dramor)<br>• Sicrhau bod pawb yn gorffen y tasgau cyn symud ymlaen i thema newydd erbyn diwedd yr wythnos |

<table>
<tr><th colspan="2">Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd</th></tr>
<tr><td>Tystiolaeth o’m Harfer Effeithiol</td><td><u>Rheolaeth ddosbarth a chydweithio</u><br>Cydweithiais yn effeithiol gyda’r cynorthwyydd ddosbarth i reoli’r amgylched dysgu. Trafodais y wers yn fanwl o flaen llaw ac esboniais eu rôl yn glir. Roedd disgyblion ar dasg drwy gydol y wers, gan gynnwys disgyblion yn yr awyr agored sy’n dystiolaeth ein bod ni wedi gweithio yn dda fel tîm.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd gyda’r safonau SAC canlynol:<ul><li>Rheoli’r amgylchedd dysgu</li><li>Cefnogi a datblygu eraill</li></ul><u>Adborth parhaus</u><br>Llwyddais i asesu cynnydd y disgyblion yn ystod y dasg ffocws yn gyson, gan roi adborth ar lafar ac yn ysgrifenedig. O ganlyniad, llwyddodd y disgyblion i weithredu newidiadau i wella safon eu hiaith a chafodd hyn effaith gadarnhaol ar ansawdd eu dyddiaduron.<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd gyda’r safonau SAC canlynol:<ul><li>Cofnodi ac adrodd</li><li>Asesu</li></ul></td></tr>
<tr><td>Meysydd ar gyfer fy Natblygiad<br><br>Targedau Personol ar gyfer Cynnydd</td><td><ul><li>Roedd gwelliant heddiw o ran adfyfyrio ar y sgiliau a ddefnyddiwyd a’r dysgu, ond teimlaf fy mod i dal yn gallu gwella fy arfer. Byddaf yn cyfeirio yn ôl at ddarlithoedd ac yn gofyn i athrawon eraill am gymorth wrth geisio datblygu sgiliau myfyrio disgyblion.</li></ul></td></tr>
</table>

# <u>Cynllun Gwers 2</u>

<table>
<tr><td>Darpar Athro</td><td>Lowri John</td><td>Dosbarth:</td><td>Blwyddyn 5 & 6</td></tr>
<tr><td>Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc</td><td>• Iaith, cyfathrebu a llythrennedd<br>• Celfyddydau mynegiannol<br>• Gwyddoniaeth a thechnoleg<br>• Mathemateg a rhifedd</td><td>Dyddiad:</td><td>14.01.20</td></tr>
<tr><td>Ffocws Gwers:</td><td colspan="3">Thema: Gwylio adar</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm</td><td colspan="3">Celf a dylunio<br>• Archwilio, arbrofi a chymhwyso elfennau iaith weledol, cyffyrddol a synhwyraidd celf, crefft a dylunio, sy’n cynnwys; llinell, tôn, lliw, patrwm a siâp<br>• Ymchwilio i’r amgylchedd naturiol (yn yr awyr agored)<br>• Dylunio a gwneud delweddau dau ddimensiwn<br>• Defnyddio ystod eang o ddefnyddiau<br><br>Gwyddoniaeth<br>• Cyd-ddibyniaeth Organebau - Cylchred bywyd</td></tr>
<tr><td>Cysylltiadau ystyrlon â:<br>Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd</td><td colspan="3">Rhifedd<br>• Defnyddio strategaethau dyblu a haneru wrth weithio gyda chyfrannau syml<br>• Cyflwyno data drwy ddefnyddio: – siartiau cyfrif, tablau, siartiau bar a graffiau llinell<br><br>Cymhwysedd digidol<br>• Dylunio dilyniannau syml o gyfarwyddiadau (algorithmau) gan gynnwys defnyddio gwerthoedd Boolean (oes/ nac oes)<br><br>Llythrennedd<br>• Defnyddio geirfa amrywiol a phriodol, gan gynnwys geiriau ac ymadroddion pwnc penodol<br>• Darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau cyson</td></tr>
<tr><td colspan="4">Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)<br><br>SAC: Gwrando ar ddysgwyr</td></tr>
</table>

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| Nod: Ar ddiwedd yr wythnos bydd disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o adar yr ardd a chwblhau heriau, yn seiliedig ar ddigwyddiad 'Gwylio Adar' gan yr RSPB.<br><br>• Casglu data am adar a chreu graff bar<br>• Creu cylch bywyd alarch<br>• Trechu'r heriau llythrennedd, rhifedd, creadigol a T.G.CH |

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu'r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| 1. Defnyddio data i greu tabl a graff bar i ddangos y nifer o adar a welwyd yn yr ardd<br><br>➢ Cofnodi'r data o'r gwaith cartref i mewn i dabl<br>➢ Defnyddio'r data o'r tabl i greu graff bar<br>➢ Nodweddion graff (creu graddfa, rhoi teitl a labeli cywir).<br>➢ Dadansoddi canlyniadau'r graff (ysgrifennu tua pharagraff). | Disgyblion i ddefnyddio'r data o'i gwaith cartref i greu tabl, graff bar ac ysgrifennu dadansoddiad byr o'r canlyniadau'r yn eu llyfrau thema. Disgwylir i ddisgyblion i gwblhau'r dasg yn Gymraeg. |
| 2. Creu cylchred bywyd alarch<br><br>➢ Darllen y daflen wybodaeth<br>➢ Gosod y ffeithiau yn y drefn gywir<br>➢ Gosod y llun cywir wrth ochor y ffeithiau<br>➢ Gludo'r lluniau yn y drefn gywir ac ysgrifennu'r ffeithiau yn daclus yn eu llyfrau thema | Disgyblion i weithio'n annibynnol ar y dasg gan ddefnyddio'r daflen wybodaeth ac adnoddau pellach (megis geiriadur) i helpu nhw. |
| 3. Heriau<br>Disgyblion i weithio'n annibynnol ar yr heriau. Defnyddio'r adnoddau i'w helpu neu ofyn am gymorth oddi wrth gyfoedion. | Disgyblion i gofnodi'r heriau yn eu llyfrau; ar gyfrif Hwb neu ar yr arddangosfa celf. |

| Amser | Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol<br>(Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | Tasgau Disgyblion<br>(Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | Adnoddau<br>(Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol**<br>(gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) | **<u>Cyflwyniad</u>**<br>Byddaf yn cyflwyno gwybodaeth am y digwyddiad (Gwylio Adar yr Ardd).<br><br>**<u>Gwrando ar ddysgwyr</u>**<br>Byddaf yn gofyn i'r disgyblion i gwblhau grid GED. Bydd y plant a minnau'n cael trafodaeth am yr hyn maen nhw'n ei wybod am adar a'r hyn yr hoffen nhw ei wybod. Bydd y drafodaeth yn cael ei harwain gan blant wrth i ni gwblhau'r grid gyda'n gilydd.<br><br>*(Bydd rhan olaf y grid yn cael ei chwblhau ar ddiwedd y thema gan ei bod yn gofyn i blant fyfyrio ar yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu).*<br><br>Grwpiau thema:<br>Grŵp glas: Tasg ffocws<br>Grŵp oren: Tasg annibynnol<br>Grŵp coch: Heriau | **<u>Cyflwyniad</u>**<br>Disgyblion i wrando ac ymateb i'r cwestiynau.<br><br>**<u>Tasg</u>**<br>Disgyblion i gyfrannu at y drafodaeth wrth i ni gwblhau'r grid GED. Bydd disgwyl i ddisgyblion wrando a pharchu syniadau ei gilydd ac i gymryd eu tro i siarad. Dylid defnyddio iaith Gymraeg cywir wrth gyflwyno gwybodaeth ac ateb mewn brawddegau llawn.<br><br>Ar ôl i ni gwblhau'r grid GED ar y cyd, bydd disgwyl i'r disgyblion i ysgrifennu'r wybodaeth yn eu llyfrau thema. | Cyflwyniad 'PowerPoint' yn seiliedig ar y digwyddiad.<br><br>Llyfrau thema<br><br>Adnoddau ysgrifennu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | **<u>Tasg ffocws</u>**<br>➢ Byddaf yn cefnogi disgyblion i greu meini prawf llwyddiant cyn dechrau'r dasg.<br>➢ Byddaf yn creu model o dabl a graff bar ar y bwrdd gwyn gyda'r disgyblion cyn iddynt ddechrau'r dasg.<br>➢ Byddaf yn datblygu iaith Gymraeg y disgyblion drwy annog nhw i ddefnyddio geirfa sy'n addas i'r dasg gan gynnwys, enwau'r adar a nodweddion graff.<br><br>**<u>Tasg Annibynnol</u>**<br>Byddaf yn rhannu'r meini prawf llwyddiant gyda'r grŵp annibynnol ac yn gwirio bod pawb yn deall. Bydd disgwyl i ddisgyblion gwirio trefn y cylchred, cyn gludo'r lluniau yn eu llyfrau.<br><br>**<u>Heriau</u>**<br>Byddaf yn monitro cynnydd disgyblion drwy gydol y wers ac yn rhoi cymorth pan fod angen. | **<u>Tasg ffocws</u>**<br>Disgyblion i fynd ati i greu tabl, graff bar a dadansoddi'r canlyniadau.<br><br>**Tasg ymestyn:** Ar ôl gorffen y dasg, bydd disgwyl i ddisgyblion dadansoddi graff llinell yn ymwneud ag adar.<br><br>**<u>Tasg Annibynnol</u>**<br>Disgyblion i ddarllen y daflen wybodaeth a'u threfnu'n gywir i greu gylch bywyd alarch yn annibynnol.<br><br>**Tasg ymestyn**: Chwarae gêm 'Bingo Adar'<br><br>**<u>Heriau</u>**<br>➢ Creadigol: Creu braslun o adar.<br>➢ Rhifedd: Tasg ffracsiynau yn seiliedig ar wylio adar.<br>➢ T.G.CH: Creu 'Cangen' ar Jit5 yn seiliedig ar adar.<br>➢ Llythrennedd: Ysgrifennu cofnod dyddiadur o safbwynt aderyn (2 diwrnod). | Llyfrau thema/ Gwaith cartref<br><br>Papur graff<br><br>Adnoddau ysgrifennu<br><br>Taflen wybodaeth<br><br>Canllawiau dylunio<br><br>Taflen waith (ffracsiynau)<br><br>Gliniaduron<br><br>Llyfrau Heriau<br><br>Esiampl o ddyddiadur |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Sesiwn Gloi** | Byddaf yn gofyn i'r disgyblion rannu'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu yn ystod y wers. Yna byddaf yn asesu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion wrth iddynt chwarae cwis. | Disgyblion i feddwl, paru a rhannu.<br>Disgyblion i gymryd rhan yn y cwis. | Cwis rhyngweithiol |

# Cynllun Gwers – Cam 1
# Gwerthuso'r Profiad Dysgu
# (cynhwyswch gyfeiriadau at SAC)

| **Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu** | |
|---|---|
| Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser)) | **<u>Tasg ffocws (grŵp glas)</u>**<br>Llwyddodd disgyblion i greu tabl, graff bar a dadansoddi'r graff erbyn diwedd y wers. Defnyddiodd y disgyblion yr esiampl a'r meini prawf llwyddiant i helpu nhw i gwblhau'r dasg. Ar y cyfan, roedd y disgyblion yn defnyddio iaith addas wrth labeli'r graff a dadansoddi'r graff, ond angen atgoffa'r plant i ateb mewn brawddegau llawn.<br><br>**<u>Tasg annibynnol</u>**<br>Aeth disgyblion ati i drefnu'r ffeithiau yn gywir a thorri allan y lluniau o gylch bywyd alarch. Nid oedd pob disgybl wedi gorffen y dasg erbyn diwedd y wers. Roedd y disgyblion ar dasg trwy gydol y wers, ond roedd angen annog nhw i barhau gyda'r dasg ar adegau. Byddai daflen wirio wedi bod yn ddefnyddiol er mwyn i'r disgyblion hunan asesu a gwirio trefn y cylch bywyd yn annibynnol.<br><br>**<u>Heriau</u>**<br>Aeth disgyblion ati i gwblhau'r her greadigol a her T.G.CH. Roedd angen ail-esbonio'r her T.G.CH gan fod disgyblion yn gofyn am gymorth yn gyson ar ddechrau'r dasg. Llwyddodd disgyblion i greu braslun o adar gan ddefnyddio'r taflenni cam wrth gam.<br><br>**<u>Datblygu'r Gymraeg</u>**<br>Disgyblion yn dechrau adnabod y gwahanol fathau o adar. Gwelwyd tystiolaeth o hyn wrth i'r disgyblion chwarae'r cwis ar ddiwedd y wers. Angen cyfoethogi iaith Gymraeg o ran geirfa ein thema newydd, megis mwydyn, mwyalchen, llinos werdd, gwylan. Disgyblion yn mwynhau gwylio adar ac wedi dechrau defnyddio ein siart 'Gwylio adar' o fewn y dosbarth. |
| Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd | Cylchdroi'r grwpiau yn y wers nesaf gan wahaniaethu'r tasgau.<br><br>➢ Adolygu geirfa Cymraeg, yn enwedig enwau'r adar<br>➢ Ymestyn sgiliau meddwl disgyblion drwy ofyn fwy o gwestiynau agored<br>➢ Darparu cyfleoedd i'r grŵp annibynnol i wirio trefn y cylch bywyd yn annibynnol |

| Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd | |
|---|---|
| Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol | **<u>Gwrando ar ddysgwyr – Grid GED</u>**<br>Pwrpas y grid GED oedd gwrando ar farn disgyblion a'u hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. Dysgais fod cynllunio gweithgareddau dysgu gyda'r disgyblion yn ffordd effeithiol o ennill eu cymhelliant a'u diddordeb tuag at y thema. Yn ogystal â hyn, roeddwn i'n gallu dangos parch at ddysgwyr trwy gynllunio gweithgareddau yn seiliedig ar eu syniadau o'r grid. **Mae hyn yn cyd-fynd gyda'r safonau SAC; Gwrando ar ddysgwyr a dysgwyr yn arwain y dysgu.** |
| Meysydd ar gyfer fy Natblygiad<br><br>Targedau Personol ar gyfer Cynnydd | • Esbonio pob gweithgaredd yn glir cyn i ddisgyblion fynd ati i ddechrau'r gweithgareddau gwahanol.<br>• Sicrhau cyfarfod llawn yn y wers, er mwyn asesu cynnydd disgyblion yn fwy cyson<br>• Parhau i ddatblygu fy Nghymraeg o amgylch yn thema hyn oherwydd nid oeddwn yn siŵr o enwau'r holl adar yn Gymraeg. |

# Cynllun gwers 3

| | | | |
|---|---|---|---|
| Darpar Athro | Lowri John | Dosbarth: | Blwyddyn 2 |
| Maes Dysgu a Phrofiad neu Bwnc | Datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu | Dyddiad: | 03.12.19 |
| Ffocws Gwers: | Ysgrifennu llythyr anffurfiol | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â'r Cwricwlwm | **Fframwaith y Cyfnod Sylfaen**<br><br>**Datblygiad creadigol:**<br>• Datblygu eu dealltwriaeth o gynllunio, dylunio, modelu, addasu a myfyrio<br>• Gwneud dewisiadau wrth ddewis defnyddiau ac adnoddau<br><br>**Pedwar diben:**<br>Dysgwyr uchelgeisiol, galluog<br>Dysgwyr mentrus, creadigol | | |
| Cysylltiadau ystyrlon â:<br>Chyfrifoldebau trawsgwricwlaidd | **Llythrennedd:**<br>**Llafar:**<br>• Ysgrifennu at ddibenion gwahanol<br>• Rhannu gweithgareddau a gwybodaeth i gwblhau tasg<br>• Codi gwybodaeth o destun yn gywir a'i didoli'n gategorïau neu o dan benawdau<br><br>**Darllen:**<br>Darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl<br><br>**Ysgrifennu**<br>• Defnyddio sgwrs i gynllunio ysgrifennu<br>• Defnyddio gwahanol fathau o ysgrifennu sy'n briodol i'r pwrpas a'r<br>• darllenydd | | |
| Targedau Personol (Cysylltiedig â SAC ac wedi eu nodi mewn adolygiad wythnosol)<br>Safon SAC: Gwrando ar ddysgwyr | | | |

| Amcanion Dysgu (ffocws ar ddysgu – defnyddio geirfa ddealladwy): |
|---|
| Nod y wers: Ar ddiwedd yr wythnos bydd disgyblion yn medru ysgrifennu llythyr a chreu bwlch postio.<br><br>• Ysgrifennu llythyr oddi wrth Wendi Wlanog<br>• Cofio a deall stori Wendi Wlanog<br>• Creu blwch postio |

| Meini Prawf Llwyddiant (wedi eu cysylltu'n glir â phob Amcan Dysgu ac yn gysylltiedig â phroses a/neu gynnyrch dysgu) | Asesu Dysgu'r Disgyblion<br>Tystiolaeth<br>(Beth sydd gan y dysgwyr i'w ddweud/ysgrifennu/gwneud/cynhyrchu i ddangos yr hyn a ddysgir) |
|---|---|
| **Ysgrifennu llythyr oddi wrth Wendi Wlanog**<br>• Bydd angen ysgrifennu cyfeiriad, dyddiad, cyfarchiad, cynnwys a diweddglo<br>• Bydd angen disgrifio 'Wendi Wlanog' ac ymddiheuro am ddinistrio'r Lili'r Wyddfa<br><br>**Cofio a deall stori Wendi Wlanog**<br>• Bydd angen i ddisgyblion darllen y brawddegau a chysylltu nhw gyda lluniau o gymeriadau'r stori<br><br>**Creu blwch postio**<br>• Peintio bocs yn goch / ddu<br>• Ysgrifennu 'blwch postio'<br>• Addurno'r bocs gyda gwlân<br>• Dangos dealltwriaeth o bwrpas blwch postio | **Ysgrifennu llythyr oddi wrth Wendi Wlanog**<br>Bydd disgwyl i ddisgyblion ysgrifennu llythyr gan ddefnyddio'r ffrâm ysgrifennu i'w helpu<br><br>**Cofio a deall stori Wendi Wlanog**<br>Bydd disgwyl i ddisgyblion gydweithio fel grŵp i ddarllen y brawddegau a'u ddefnyddio i ddisgrifio cymeriadau'r stori.<br><br>**Creu blwch postio**<br>• Gweithio fel grŵp a chymryd tro i beintio bocs ac addurno.<br>• Trafod ar lafar pam yr ydym ni yn defnyddio blwch postio |

| **Amser** | **Gweithgareddau/Methodoleg/Cysyniadau Allweddol**<br>(Rôl yr Athro – gan gynnwys pwyntiau dysgu allweddol a chwestiynau allweddol) | **Tasgau Disgyblion**<br>(Rôl disgyblion – gan gynnwys strategaethau gwahaniaethu, ymgysylltu ag asesu ffurfiannol a gwaith cartref) | **Adnoddau**<br>(Gan gynnwys gofyniad Iechyd a Diogelwch) |
|---|---|---|---|
| **Cyfnod agoriadol** (gyda chysylltiadau â dysgu blaenorol) | Byddaf yn ail-ddarllen stori Wendi Wlanog gan ofyn cwestiynau i asesu eu dealltwriaeth.<br><br>Yna, byddaf yn esbonio'r gweithgareddau dysgu ac yn rhannu'r plant i mewn i'w grwpiau.<br><br>Grŵp arbennig: tasg dan arweiniad<br>Grŵp bendigedig: tasg ffocws<br>Grŵp gwych: tasg annibynnol | Disgyblion i wrando ac ymateb i'r cwestiynau | Llythyr mewn amlen<br>Templed o lythyr |
| **Addysgu a Dysgu Craidd** | **<u>Tasg ffocws</u>**<br><br>Byddaf yn dangos esiampl o lythyr gan 'Wendi Wlanog' ac yn atgoffa'r disgyblion o strwythur y llythyr.<br><br>Byddaf yn cyflwyno'r ffrâm ysgrifennu a'r mat geirfa ac yn annog y disgyblion i'w ddefnyddio yn ystod y wers.<br><br>Byddaf yn annog y disgyblion i fod yn greadigol wrth ysgrifennu'r llythyr, ond byddaf yn awgrymu strwythur iddyn nhw er mwyn scaffaldu'r dysgu.<br><br>Byddaf yn rhoi adborth ar lafar trwy gydol y dasg i gefnogi datblygiad ysgrifenedig y disgyblion. | **Tasg ffocws:**<br>Disgyblion i fynd ati i ysgrifennu llythyr o safbwynt Wendi Wlanog gan ddefnyddio'r ffrâm ysgrifennu a'r mat geirfa am gymorth pellach. | Paent coch<br><br>Gwlân<br><br>Brwsiau paent<br><br>Ffrâm ysgrifennu<br><br>Mat geirfa<br><br>Llyfrau iaith<br><br>Gliniaduron<br><br>Offer ysgrifennu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **<u>Tasg annibynnol</u>**<br>Byddaf yn annog y grŵp annibynnol i ddefnyddio FFfAA trwy gydol y wers. Ar ben hyn, byddaf yn ymweld ar grŵp yng nghanol y wers i wirio os ydyn nhw wedi trefnu'r cardiau yn gywir.<br><br>**<u>Rôl cynorthwyydd 1 – Tasg dan arweiniad</u>**<br><br>Bydd angen cynnal trafodaeth ynglŷn â pham yr ydym ni yn defnyddio blwch postio.<br><br>Yna, bydd angen dangos llun o flwch postio a thrafod pa liwiau sydd angen defnyddio. Ar yr un pryd, dylid annog disgyblion i fod yn greadigol wrth addurno'r blwch postio. | **<u>Tasg annibynnol</u>**<br>Bydd angen cysylltu'r brawddegau i ddisgrifio'r cymeriadau cywir (Bob, Lili'r wyddfa neu Wendi Wlanog). Ar ôl gorffen bydd angen cwblhau chwilair sy'n cynnwys geirfa o stori Wendi Wlanog.<br><br>**Tasg ymestyn:** Darllen llythyron oddi wrth Wendi Wlanog.<br><br>**<u>Tasg dan arweiniad</u>**<br>Bydd angen i ddisgyblion:<br>– Gweithio fel grŵp a chymryd tro i addurno'r blwch postio efo gwlân. Ysgrifennu ar flaen y blwch postio (edrych ar lun o flwch postio go iawn i ddwyn syniadau).<br>– Trafod ar lafar pam yr ydym ni yn defnyddio blwch postio<br>– Ysgrifennu cyfeiriad ar amlen a rhoi stamp<br><br>**Tasg ymestyn:** Mewngofnodi I'w gyfrif Hwb ac ymarfer sillafu ar 'SpellBlast' | |
| **Sesiwn Gloi** | Gofynnir i ddisgyblion i adrodd un ffaith a ddysgwyd o'r wers neu i ddangos rhywbeth maent yn falch ohono. E.e. llythyr personol.<br><br>Byddaf yn canmol plant am eu hymdrechion ac yn dweud wrthynt fod rhai o'r llythyron yn gallu mynd ar yr arddangosfa (Wal WOW). | Disgyblion i feddwl, paru a rhannu. | |

# Cynllun Gwers – Cam 1
# Gwerthuso'r Profiad Dysgu
# (cynhwyswch gyfeiriadau at SAC)

| **Gwerthuso'r hyn y mae Disgyblion yn ei Ddysgu** | |
|---|---|
| Tystiolaeth o Ddysgu (gan gynnwys agwedd at ddysgu dros amser)) | **Ysgrifennu llythyr oddi wrth Wendi Wlanog**<br>Grŵp bendigedig wedi mwynhau ysgrifennu'r stori. Defnyddiwyd y ffrâm ysgrifennu a'r mat geirfa i'w helpu. Disgyblion yn greadigol wrth feddwl am ffordd i helpu 'Daniel' edrych ar ôl yr Wyddfa. Ysgrifen daclus a sillafu da ar y cyfan. Pob disgybl wedi gorffen y llythyr.<br><br>**Cofio a deall stori Wendi Wlanog**<br>Grŵp gwych wedi mynd ati i gysylltu'r brawddegau a'r lluniau yn gywir. Ymhellach, aeth disgyblion ati i gwblhau'r chwilair a darllen llythyron Wendi Wlanog yn annibynnol. Canolbwyntio'n dda. Defnyddiwyd FFfAA yn fwy aml yn ystod y wers.<br><br>**Creu blwch postio**<br>Roedd grŵp arbennig wedi mwynhau addurno'r blwch post. Gludodd y disgyblion gwlân ar y blwch ac ysgrifennu 'blwch post' yn gywir. Dywedodd y cynorthwyydd fod y disgyblion yn disgrifio gwead y gwlân yn ystod y dasg gan ddefnyddio geirfa Gymraeg da megis, esmwyth.<br><br>Disgyblion wedi mwynhau rhannu eu llythyron a'r blwch postio terfynol. Dywedodd y disgyblion bod ganddynt ddiddordeb i weld blwch postio go iawn ac i anfon eu llythyron. |
| Y Camau Nesaf ar gyfer Cynnydd | • Disgyblion i fynd ati i bostio llythyr go iawn gan ddefnyddio'r blwch postio yn yr ardal leol.<br>• Disgyblion i ddefnyddio'r blwch postio yn yr ardal chwarae rôl ac i gwblhau'r her llythrennedd wythnos nesaf. |

| **Dadansoddiad Adfyfyriol o Addysgu a Strategaethau ar gyfer Datblygiad – gan gynnwys cyfiawnhad/rhesymwaith dewisiadau pedagogaidd** | |
|---|---|
| Tystiolaeth o'm Harfer Effeithiol | **Safon SAC: Dilyniant mewn dysgu**<br>Datblygais ddysgu plant o'r wythnos ddiwethaf trwy helpu plant i ysgrifennu llythyr. Roedd yn amlwg bod plant wedi gafael yn dysgu'r wythnos diwethaf wrth iddynt strwythuro eu llythyr yn gywir a defnyddio geirfa allweddol fel dyddiad, cyfarchiad, diweddglo. Erbyn hyn, rydw i wedi gosod un llythyr o bob grŵp gallu ar y 'Wal WOW' er mwyn dathlu cynnydd y disgyblion. |
| Meysydd ar gyfer fy Natblygiad<br><br>Targedau Personol ar gyfer Cynnydd | • Sicrhau fod disgyblion yn cael y cyfle i bostio llythyr go iawn. Byddai hyn yn cysylltu efo'r Safon SAC sy'n hyrwyddo profiadau dysgu dilys. |

## Gwahaniaethu (1)

## Dyddiadur 1

Enghraifft o waith disgybl o'r grŵp gallu gwan (Grŵp coch)



yr unfed ar ddeg ar hugain o Ionawr

| [redacted] | Nod: Ysgrifennu dyddiadur creadigol o safbwynt plentyn yn Tsieina<br>Meini Prawf Llwyddiant | Hunan/ Cyfoedion/ Athrawes |
| --- | --- | --- |
| Ysgrifennwch yn y gorffennol | | ✓ |
| Disgrifiwch eich teimladau | | ✓ |
| Beth welsoch chi? Beth glywsoch chi? | | ✓ |
| Sut oedd pawb yn y teulu? | | ✓ |

- Ardderchog!
- Defnyddia paragraffau yn dy waith.

26 o Ionawr

Annwyl dyddiadur

Heddiw dwi wedi cael Diwrnod anhygoel, Codais i lan a gwelais i amlen coch oedd losin a arian mewn e. Wneas i taglu dillad coch ar a redeg mas y drws, Pan Oedd Dwi'n mas roedd Mam yn taglu party mawr am fy holl teulu. Dwi wedi Gweld Pobol yn dawnsio a Cannu. Gwelais i Dyn yn Perffomio draig. Pan ais i Mewn rhoedd fy holl teulu yn eistedd ar fy Sofa a bwita dwpleni a saws Soy. Cerddais mewn i gegin a gofin i Mam os dwpleni a soy saws. Bwtas i y dwpleni a soy saws mewn flash. Ar ôl cinio wenais i gwisgo lan fel draig a dansio. Pan Dwi wedi dod nol mewn Dwi wedi creo llisen a Mind mas a taglu y llisen yn y awir Wedin Oedd en amser Cysgu yn y nos clywaidd fi tan gwillt oedd nh 'n mawr! BANG! Bang!

[redacted]

## **Dyddiadur 2**

Enghraifft o waith disgybl o’r grŵp gallu canolig (Grŵp oren)



Ychwechedo Ionawr

| [redacted] | Nod: Ysgrifennu dyddiadur creadigol o safbwynt plentyn yn Tsieina | |
|---|---|---|
| | Meini Prawf Llwyddiant | Hunan/ Cyfoedion/ Athrawes |
| Ysgrifennwch yn y gorffennol | | √ ✓ |
| Disgrifiwch eich teimladau | | √ ✓ |
| Cyfeiriwch at eich synhwyrau | | √ ✓ |
| Ychwanegwch amryw o ansoddeiriau a chymhariaethau | | √ ✓ |
| Sut oedd pawb yn y teulu? Pam? | | |

25ed o Ionawr

Annwyl dyddiadur,
Bore ma, codais i a arogli nwdls yn cwginio yny cegin. codais mas o'r gwely a rhoi dillad coch arno. rhedais lawr y grisiau a gwelais nwdls a tangyuan bwytais i gyd ofe. Rhedais mas y drws.

cerddais draw i marced a prynais gwisg draig am 5 yun Tseineaidd sydd yn rhesymol. Rhedais draw i'r strid a gwisgais lan. gwelais mewn fy bag a gweld brechdan ham bwytais i y brechdan ham.

Nesaf gwelais i pawb yn cerdded draw i'r strid, rhedais dros y fens rhoidd i'n barod i gwneud y dawns ddraig a cyn bo hir oedd e'n dywyll iawn a wedyn dechrauais i gwneud y dawns oedd e'n nwylys iawn oedd dwi'n mynd chwith, dde, lan a lawr pan oedd y dawns wedi gorffen rhedais gytref.

Ond cyn fynd siopa am losin cerddais draw i'r siop losin oedd dwi'n tynnu gormod o amser ond gwelais y losin dwi'n hoffi mwyaf oedd nhw'n nerds llawer a llawer o nerds cerddais draw i'r til a prynais i nhw, dwi just wedi dod mas o'r siop cyn oedd on gau.

Rhedais gytref a bwyta nwdls am cinio a wedyn bwytais i y nerds. cerddais lan y grisiau a rhoi pyjamas arno a fynd i gwelu. Ond cyn mynd i gwelu darllenais llyfr y Hobbit am tipyn bach o amser a wedyn mynd i gwelu.

[redacted]

- Dyddiadur diddorol.
- Berfau anhygoel trwy gydol dy waith
- Cynnwys berthnasol i'r flwyddyn newydd Tseineaidd.
- Amrywio brawddegau. Defnyddia thesaurus i helpu ti.

## **Dyddiadur 3**

Enghraifft o waith disgybl o’r grŵp gallu uwch (Grŵp glas)


y degfed ar hugain o Ionawr

[redacted]

Nod: Ysgrifennu dyddiadur creadigol o safbwynt plentyn yn Tsieina

| Meini Prawf Llwyddiant | Hunan | Cyfoedion/ Athrawes |
|---|---|---|
| Ysgrifennwch yn y gorffennol | ✓ | ✓ |
| Trefn gronolegol | ✓ | ✓ |
| Ychwanegwch idiomau, ansoddeiriau, cymhariaethau | ✓ | ✓ |
| Disgrifiwch eich teimladau | ✓ | ✓ |

31 o Ionawr

Annwyl dyddiadur,

Heddiw oedd diwrnod arbennig! Codais i lan a oedd fi wedi rhedeg lawr y grisiau a gefais shock oedd na dumplins a'r y ford. Bwytais i y dumplins mor gyflym na gwynt a taflais i dillad coch arno! Rhedais i i ysgol. A'r y ffordd i ysgol oedd fi'n wen o glust i glust a oedd fi wedi rhoi amlen hong bao i fy ffrind! Mewn yr amlen oedd fi wedi rhoi siocled, loshin, arian a breichled arian oedd hapus iawn a cerdded ni mewn i'r ysgol.

Am y wers gyntaf oedd fi a'r dosbarth wedi creu llygoden fawr mas o stwffin a ...nyddau i creu tedi. Oedd ni wedi cael ...s Llusern am athrawes. Oedd en hwylis ...n.

Am cinio oedd fi wedi cael jiaozi sef ...plenni wedi eu berwi mewn dŵr. Oedd fi'n lwcus mewn dwmplin fi oedd fi wedi cael £50.00 waw oedd fi'n wrth fy modd a oedd fi wedi cael saws soy garlleg Blasus iawn!

Yn y prynhawn oedd Mrs Llusern wedi cael supreis oedd i gyd o ni mynd i gwisgo lan a dawnsio ar y stryd. Cyn i ni wedi mynd oedd ni wedi creu draig mas o bambo a bagiau plastig a dawnsiodd ni am oriau.

Pan oedd fi'n gartref oedd i gyd o teulu fi yn na oedd en bendigedig. Oedd pob un wedi rhoi anrhegau i fi a amlenni hong bao. Y hoff anrheg oedd y PJs ddraig coch oedd fi'n meddwl oedd fi'n ddraig go iawn oedd en anhygoel. Oedd y cefnderau wedi cysgu draw mewn gwely!

Dwi'n eistedd yn fy ngwely yn meddwl am i gyd o'r pethau anghygoel sydd wedi digwydd heddiw. Nôs da dyddiadur

[redacted]

- Dyddiadur anhygoel!
- Ffeithiau diddorol a chreadigol
- Ansoddeiriau a chymhariaethau da.

Cam nesaf: Defnyddia'r person cyntaf yn gywir. 'Roeddwn i' yn hytrach na 'oedd fi'

## Adborth

Ysgrifennais adborth yn seiliedig ar ddyddiadur disgybl. Dengys y dystiolaeth welliant o ran iaith Gymraeg y disgybl wrth iddo newid y berfau i’r gorffennol yn gywir gan ddefnyddio pen porffor.



a anifeiliaid y Zodiac a oedd
y Pysgodling y Fawr a byd Cach
yn y pereid Fawr Cach. Ar ol y
pereid dwi wedi fyn i cysgu a
Just kin dwi wedi fynd i cysgu
dwi wedi gweld Tan gwyllt a dwi
wedi gwilio nw tan bod dwi wedi
cysgu!

- Dyddiadur diddorol a chreadigol
- Ansoddeiriau da ac nwyt ti wedi nodi dy deimladau.

Meddylia am berfau yn y gorffennol. e.e. bwytais i. wyt ti'n gallu newid y rhai yn y dyddiadur?

bwytais i
gwisgais i
cyrhaedd i
cyrhaeddais

## **Grid GED**

Dengys y grid fy ngallu i wrando ar farn disgyblion a'u hannog i gymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hunain. Roedd y grid yn ffordd effeithiol i blant gymryd perchnogaeth o'u dysgu ac i fyfyrio ar eu cynnydd o ddechrau'r thema i'r diwedd.



**Enghraifft o dasg ffocws (CA2)**

Dengys y dystiolaeth bod y disgybl wedi cyflawni'r dasg yn gywir wrth iddo gyflawni'r meini prawf llwyddiant a hunan asesu erbyn diwedd y wers. Gweler tystiolaeth o enwau adar wedi'i ysgrifennu yn y Gymraeg yn gywir a'u bod yn medru dadansoddi'r graff drwy ateb y cwestiynau yng Nghymraeg.



pedwerydd ar ddeg o Ionawr

| [redacted] | Nod: Gwilio Adar yr ardd | |
|---|---|---|
| | Meini Prawf Llwyddiant | Hunan / Cyfoedion/ Athro |
| | ysgrifennwr data: mewn i'r dabl | |
| | Gran graff bar i ddangos y data | |
| | Edrych ar y canlyniadau yn ofalus | |

| Enw | Nifer o adar |
|---|---|
| Robin | 30 |
| Titw cynffon-hir | 8 |
| Pioden | 11 |
| Gwylan | 20 |
| Jac y do | 24 |
| Calomen | 10 |
| Bronfraith | 15 |
| Mwyalchen | 25 |

- Gwaith arbennig. Trefnus a thaclus.
- Graff clir i ddangos y canlyniadau ac rwyt ti wedi ateb y cwestiynau yn gywir.

- Beth am edrych ar graff llinell a gweld y nifer o adar sydd i'w weld dros flwyddyn cyfan?



1. Pa aderyn oedd y mwya af cyffredyn? Robin
2. Pa dderyn oedd y lleiaf cyffredyn? Titw cynfon hyr
3. Faint o adar welsoch chi yfan ywbl? 153
4. A welsoch chu yn un nifer o adar?
5. Beth yw'r gwahaniaith rhwyns y nifer lleiaf o adara welsoch? 22

# Gwahaniaethu

## Tasg annibynnol 1

Enghraifft o waith disgybl grŵp gallu gwan



# **Tasg annibynnol 2**

Enghraifft o waith disgybl o'r grŵp gallu uwch



## Adnodd - tasg annibynnol 1

Dyma'r daflen wybodaeth ar gyfer y grŵp o allu isel. Nid oedd yn rhaid iddynt drefnu'r ffeithiau, dim ond cysylltu'r ffeithiau â'r lluniau. Hefyd, roedd llai o wybodaeth i'w darllen er mwyn lleihau'r her.

### Taflen Gwybodaeth – Cylch Bywyd

Darllenwch y ffeithiau am fywyd yr alarch. Cysylltwch y ffaith gywir â'r llun cywir i greu cylch bywyd.

1. Pan mae'r nyth yn barod bydd yr alarch yn dodwy'r wyau. Bydd yr alarch yn eistedd ar yr wyau am 5 wythnos i gadw nhw'n gynnes.

2. Ar ôl 5 wythnos mae'r cyw yn deor o'r wy. Bydd yn pigo drwy blisgyn yr wy gyda'i big.

3. Yr enw ar fabi alarch yw cyw alarch. Pan maent wedi eu geni mae ganddynt blu llwyd a phig meddal llwyd.

4. Mae'r cyw yn aros gyda'i mam am ddiwrnod neu ddau cyn mynd i'r dŵr. Mae cywion elyrch yn gallu nofio ar unwaith. Mae eu manblu llwyd yn gallu dal dŵr.

5. Mae'r cywion yn dysgu sut i hedfan pan fydd eu plu hedfan yn tyfu. Mae hyn yn digwydd pan mae'r cyw tua 4 a hanner mis oed. Pan fydd yr elyrch yn hedfan mewn grwpiau maent yn ffurfio siâp – 'V'.

6. Ar ôl blwyddyn bydd y cyw yn dechrau colli ei plu brown a thyfu plu gwyn fel ei rieni.

7. Mae'r alarch wedi tyfu i fyny erbyn hyn. Gall elyrch fyw am dros 20 mlynedd, ond fel arfer bydd elyrch yn byw am tua 7 mlynedd.

## Adnodd - tasg annibynnol 2

Dyma'r daflen wybodaeth ar gyfer y grŵp o allu uwch. Roedd rhaid trefnu'r ffeithiau a chysylltu'r ffeithiau â'r lluniau. Hefyd, roedd fwy o wybodaeth i'w darllen er mwyn herio'r disgyblion.

### Taflen Gwybodaeth – Cylch Bywyd

Darllenwch y ffeithiau am fywyd yr alarch. Rhowch y ffeithiau yn y drefn gywir. Yna, cysylltwch y ffaith gywir â'r llun cywir i greu cylch bywyd.

Mae'r alarch wedi tyfu i fyny erbyn hyn. Gall elyrch fyw am dros 20 mlynedd, ond ar gyfartaledd bydd elyrch yn byw am tua 7 mlynedd.

Ar ôl 5 wythnos mae'r cyw yn deor o'r wy. Bydd yn pigo drwy blisgyn yr wy gyda'i big.

Yr enw ar fabi alarch yw cyw alarch. Pan maent wedi eu geni mae ganddynt blu llwyd a phig meddal llwyd.

Mae'r alarch yn aderyn adnabyddus yn Ynysoedd Prydain, sydd yn aml yn cael ei gweld mewn parciau cyhoeddus, llynnoedd ac afonydd.

Pan mae'r nyth yn barod bydd yr alarch yn dodwy'r wyau. Bydd yr alarch yn eistedd ar yr wyau am 5 wythnos i gadw nhw'n gynnes.

Mae'r cywion yn dysgu sut i hedfan pan fydd eu plu hedfan yn tyfu. Mae hyn yn digwydd pan mae'r cyw tua 4 a hanner mis oed.

Pan fydd yr elyrch yn hedfan mewn grwpiau maent yn ffurfio siâp – 'V'.

Mae llawer o adar ifanc yn marw yn ystod eu blwyddyn gyntaf oherwydd damweiniau hedfan.

Mae'r cyw yn aros gyda'i mam am ddiwrnod neu ddau cyn mynd i'r dŵr. Mae cywion elyrch yn gallu nofio ar unwaith. Mae eu manblu llwyd yn gallu dal dŵr.

Ar ôl blwyddyn bydd y cyw yn dechrau colli ei plu brown a thyfu plu gwyn fel ei rieni. Nid oes gan elyrch llawer o elynion, ac maent wedi eu paratoi'n dda i ammddiffyn eu hunain rhag ysglyfaethwyr. Y prif ysglyfaethwyr yw llwynogod.

# Enghreifftiau o waith disgyblion (Cyfnod Sylfaen)

## Llythyr

Dyma enghraifft o lythyr disgybl ym mlwyddyn 2.



## **Paratoi ysgrifennu llythyr**

Dyma enghraifft o waith disgybl wrth i ni ddysgu am strwythur llythyr a'r eirfa berthnasol. Cwblhawyd y gwaith hwn yn annibynnol.



# Adnoddau - Cyfnod Sylfaen

## Mat Geirfa

### Geirfa

| | |
|---|---|
| dafad | hapus |
| gwyn | drwg |
| bach | drist |



| | |
|---|---|
| mynydd | wintog |
| yr Wyddfa | heulog |
| byw | bwrw glaw |



| | |
|---|---|
| sefyll | sbwriel |
| llosgi | Lili'r Wyddfa |
| taflu | sathru |



| | |
|---|---|
| bin | peidiwch |
| tyfu | diogel |
| gofalus | tacluso |



# Ffrâm ysgrifennu

## Ffrâm ysgrifennu

**Disgrifiwch Wendi Wlanog**

1. Enw
2. Pa liw ydy'r ddafad?
3. Ble mae hi'n byw?
4. Beth mae Wendi Wlanog yn hoffi?
5. Sut mae'r tywydd ar yr Wyddfa?

**Beth wnaeth Wendi Wlanog?**

1. Maen drwg gen i am ...
2. Maen blin gen i am ...
3. Sori am ....
4. Sut wnaeth Wendi Wlanog lladd y 7 Lili'r Wyddfa

**Beth all Wendi Wlanog gwneud i helpu Daniel?**

1. Byddaf yn ...
2. Hoffwn helpu chi drwy ...
3. Mae'n bwysig i ...

**Ydych chi'n gallu meddwl am gwestiwn i ofyn i Daniel?**

# Tasgau gloywi iaith

## Enghraifft 1



TASG

Enwau

24/09/2019

Rhoi sglein ar IAITH

Tasg 1

Rhowch 'eg.' neu 'eb.' wrth ochr pob un o'r enwau hyn.

tair eb gadair — tri llais eg — tri papur eg — tair dd drama eb — tair galon calon eb

tri eg myfyriwr — tri patrwm eg — tri teulu eg — tri cwrs eg — tri teledu eg

tair eb ysgrifenyddes — ~~coleg eb~~ tri choleg (eg) — tair rhaff eb — dinas eb tair ddinas — goeden eb tair goeden

Nawr, rhowch y gair am 3 o flaen pob un. Treiglwch os oes angen.

Tasg 2

Rhowch yr enwau isod yn y golofn gywir.

angladd, coes, gwasanaeth, gweithgaredd, plentyn, ystafell, cusan, afal, penderfyniad, pennill, llinell, rhestr, trafnidiaeth.

| Enw gwrywaidd | Enw benywaidd | Enw gwrywaidd/benywaidd |
|---|---|---|
| yr angladd<br>y pennill<br>yr afal<br>y penderfyniad<br>gwasanaeth | y drafnidiaeth<br>y goes<br>~~y gwasanaeth~~<br>coes - y goes<br>llinell - y linell<br>rhestr - y restr | yr angladd<br>y cusan / y gusan |

Nawr, rhowch 'y' neu 'yr' o flaen pob un.

Tasg 3

Mae gan y geiriau hyn ddau luosog. Beth ydyn nhw? Wedyn ysgrifennwch frawddegau (12 brawddeg i gyd) i ddangos yn glir eich bod yn deall yr ystyron.

* cyngor * cais * pryd * nodyn * gwaith * llwyth (tudalen arall)

Tasg 4

Cywirwch

1. Roedd hi'n awyddus iawn i ddatrys y ddirgelwch. dirgelwch.
2. Derbyniodd yr adran adnoddau dynol ddeg o geisiau am y swydd. geisiadau
3. Mae'r restr anrhegion priodas ar y we. rhestr
4. Bydd y ferched yn cwyno os bydda i'n hwyr. merched
5. Faint o'r bechgyn fydd yn mynd i'r goleg? coleg
6. Teithiodd y llywydd i'r gynhadledd ar y drên. trên.
7. Doedd rwydwaith y coleg ddim yn gweithio'n iawn. rhwydwaith
8. Rwyt ti'n hwyr. Beth yw'r reswm? rheswm
9. Doedd ei henw hi ddim ar y taflen. daflen
10. Mae e wedi ennill y cystadleuaeth. gystadleuaeth
11. Tair ceffyl fydd yn neidio yn y rownd derfynol. Tri cheffyl
12. Mae pymtheg dynion mewn tîm rygbi. dyn

Tasg- Enwau 24/9/2019.

Tasg 3

Cyngor – Cynghorau neu Cynghorion (eg)

Cwrddodd y cynghorau i drafod materion pwysig am yr ysgol gynradd lleol.

Ysgrifennodd yr athrawon rhestr o cynghorion i'r ddisgyblion.

Cais – Ceisiadau neu Ceisiau?

Gwnaeth y myfyrwyr ceisiadau am swydd mewn addysg.

Sgoriodd y tim rygbi llawer o geisiau yn erbyn Lloegr.

Pryd – Prydiau neu Prydau

Cafodd y plant prydau o fwyd blasus.

Mae nifer o brydiau rhydd gyda'r myfyrwyr heddiw.

Nodyn – Nodau neu Nodiadau (eg)

Ysgrifennodd y plant nodiadau manwl.

Roedd Nia yn chwarae'r nodau cywir ar y piano.

Gwaith – Gweithiau neu Gweithfeydd (eg)

Gweithiau rydw i yn bwyta tost i frecwast.

Mae'r gweithfeydd yn y dref yn swnllyd.

Llwyth – Llwythau neu Llwythi

Byddaf yn llwythi'r ceir yfory.

Mae yna lwythau o ffrwythau ar gael i fwyta.

## Enghraifft 2




## Enghraifft 3

